Eich enw
Eich cyfeiriad

Enw’r person
Cyfeiriad y cwmni

Dyddiad

Annwyl Syr/Fadam,

Rwy'n ysgrifennu atoch i holi am gyfleoedd posibl yn Lextox. Yr haf hwn, bydda i’n graddio o Brifysgol Caerdydd gyda BSc mewn Ffarmacoleg Feddygol, ac rwy’n chwilio am waith â thâl neu brofiad gwaith i ddechrau ym mis Awst.

Yr hyn sy’n fy nenu at Lextox yn arbennig yw ei fod yn gwmni uchel ei barch, sydd ag enw da am gadw at safonau moesegol uchel, ac ymrwymiad i ymchwil a datblygiad parhaus. Rwy'n hyderus y galla i gyfrannu’n werthfawr at y tîm labordy yn Lextox, gan fod fy ngwerthoedd creiddiol o gael llygad craff am fanylion a chadw at safonau proffesiynol uchel yn alinio’n berffaith â rhai Lextox.

Drwy gydol fy ngradd, rwyf wedi ennill cryn brofiad o weithio yn y labordy drwy ymgymryd â sawl modiwl seiliedig mewn labordai. Drwy astudio’r modiwlau hyn, rwy wedi ennill dealltwriaeth gynhwysfawr o fioleg y gell, cemeg fiolegol, a geneteg. Rwyf hefyd wedi ymgymryd â phrosiectau ymchwil sydd wedi coethi fy sgiliau rhyngbersonol, ysgrifenedig, llafar a chyflwyniadol drwy wneud gwaith grŵp, ysgrifennu adroddiadau, a rhoi cyflwyniadau gerbron cynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys paneli o arbenigwyr. Mae profiadau o’r fath wedi fy mharatoi drwy roi imi ystod werthfawr o wybodaeth drosglwyddadwy a sgiliau labordy, megis dadansoddi data meintiol, echdynnu DNA, a thynnu ar fiowybodeg er mwyn dadansoddi setiau data mawr, megis marcwyr genetig a dilyniannau protein. Rwyf o’r farn y byddai'r sgiliau hyn yn arbennig o fuddiol yng nghyd-destun eich gweithdrefnau profi cyffuriau ac alcohol.

Rwy'n awyddus i ystyried cyfleoedd posibl i weithio yn Lextox, a byddwn ni’n croesawu'r cyfle i drafod sut gallai fy nghefndir a'm sgiliau gyfrannu at amcanion eich tîm. Mae fy CV wedi’i atodi ichi gael ei ddarllen a’i adolygu. Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at y posibilrwydd o gysylltu â chi yn y dyfodol.

Yn gywir,

Eich Enw